Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# ABC Newid Hinsawdd

**Yr amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** — **30 munud a mwy**

**Lleoliad** — **Dan do neu yn yr awyr agored**

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd a'r hyn y gallwn ei wneud i'w brwydro.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Y Celfyddydau Mynegiannol | Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Iechyd a Lles |
|---|---|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. | | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | | |

## Amcanion

- Bydd dysgwyr yn deall rhai o'r ffactorau sy'n achosi newid hinsawdd a'r canlyniadau.
- Bydd dysgwyr yn gallu egluro rhai o'r ffyrdd y gallwn liniaru effeithiau newid hinsawdd.
- Bydd dysgwyr yn cydweithio i fynegi eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi newid hinsawdd a'r canlyniadau, a sut i frwydro yn eu herbyn, mewn ffordd greadigol.

## Adnoddau ac offer

- **Cardiau adnoddau – ABC newid hinsawdd.**
- **Nodyn gwybodaeth – ABC newid hinsawdd.**
- Llinyn, siswrn, potiau casglu, mwd neu glai, a deunyddiau naturiol eraill.

## Yr hyn sydd angen ei wneud

1. Rhannwch eich dysgwyr yn dri grŵp a rhowch un o'r pynciau canlynol i bob grŵp:
   - Achosion newid hinsawdd
   - Canlyniadau newid hinsawdd
   - Brwydro yn erbyn y newid hinsawdd
2. Esboniwch bod yn rhaid i bob grŵp gasglu'r cardiau sy'n berthnasol i'w pwnc.

   Gan ddibynnu ar y grŵp, amser a lleoliad, gallai'r cardiau gael eu gwasgaru ar y llawr, eu cuddio o fewn ardal benodol, neu eu dosbarthu mewn grwpiau ar hyd llwybr. Gellir casglu'r cardiau fel rhan o ras gyfnewid neu helfa sborion, neu fel parau sy'n cyfateb. Gwnewch yn siŵr bod y cardiau cywir gan bob grŵp. Rhowch amser i'ch dysgwyr drafod y materion a godwyd.
3. Gofynnwch i'ch dysgwyr drafod gweithgaredd y cardiau her. A allant feddwl am unrhyw achosion neu ganlyniadau eraill newid hinsawdd, neu ddulliau eraill o frwydro yn ei erbyn?
4. Nawr, gall pob grŵp gwblhau'r gweithgaredd her, sef creu pentref enghreifftiol i gynrychioli pwnc ABC y grŵp. Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn yn yr awyr agored gan ddefnyddio deunyddiau naturiol, e.e. mwd, dail, cerrig, brigau a mwsogl, ar gyfer eu creadigaethau.

   Anogwch eich dysgwyr i fod yn greadigol, er enghraifft, trwy droi brigyn yn dyrbin gwynt. Fe allech chi a'ch dysgwyr ddewis golygfa ar gyfer eich pentrefi, fel pentref gwledig ar lan afon neu yn yr ucheldiroedd, pentref wedi'i amgylchynu gan goedwig, pentref arfordirol sy'n llawn twristiaid yn yr haf ond yn dawel yn y gaeaf, ac ati.
5. Ar ôl amser penodol, neu pan fydd y pentrefi wedi'u cwblhau, gall pob grŵp gyflwyno eu gwaith i'r grwpiau eraill. Efallai y bydd yn helpu gyda llif y dysgu i ddechrau gydag achosion, yna'r canlyniadau, a gorffen gyda brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. A yw eu creadigaethau ABC yn cyfateb ac yn cysylltu â'i gilydd ai peidio?

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Sut mae ... mewnosodwch un o'r ABC ... yn cyfrannu at newid hinsawdd?
- Sut gallai effeithiau newid hinsawdd effeithio ar fy nghymuned a fy ffordd o fyw yn y dyfodol?
- Pa gamau y gall pob un ohonom eu cymryd i gyfrannu at frwydro yn erbyn newid hinsawdd?

## Addasiadau ar gyfer gwahanol anghenion neu alluoedd

### Mwy o gymorth

- Gallwch liwio pob set o gardiau â lliw gwahanol fel ei bod hi'n haws eu grwpio gyda'i gilydd.
- Gallai grwpiau lunio eu pentref ar bapur yn lle gwneud model 3D.
- Gallai arweinydd y grŵp egluro pob cerdyn.
- Gallwch dynnu rhai o'r cardiau ar gyfer pob grŵp.

### Mwy o sialens

- Dysgwyr i ddod o hyd i gardiau a'u rhannu i'r tri grŵp heb gymorth oedolion.
- Gofynnwch i'r dysgwyr esbonio'r cysylltiad rhwng pob cerdyn a'r newid yn yr hinsawdd.

## Gweithgaredd dilynol / tasg estynedig

Rhowch gynnig ar ein gweithgareddau eraill:

- **Cynllun gweithgaredd – Yr argyfwng hinsawdd.**
- **Cynllun gweithgaredd – Ymaddasu i newid hinsawdd.**
- Ewch ar ymweliad â safle cynhyrchu ynni lleol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Dysgwch fwy am waith Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yma:
**www.cyfoethnaturiol.cymru**

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government